Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cartref Gofal Tŷ Enfys**

**Tŷ Enfys**
**Marle Close**
**Caerdydd**
**CF23 7EP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Gofal Tŷ Enfys

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Hallmark Care Homes (Pentwyn) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 101 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Ebrill 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio |

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel. Caiff gweledigaeth ac ethos y gwasanaeth eu rhoi ar waith gan bob aelod o'r staff. Mae prosesau llywodraethu cryf ar waith, wedi'u cefnogi gan strwythur rheoli clir. Mae systemau archwilio cadarn yn ogystal â threfniadau sicrhau ansawdd. Mae gan y rheolwyr, yr uwch-reolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth ac maent yn sicrhau y caiff ansawdd uchel ei roi ar waith a'i gynnal. Mae tîm ffordd o fyw ymrwymedig a brwdfrydig sy'n sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i anghenion y bobl o ran rhyngweithio cymdeithasol a'u gallu i ymgysylltu â'r pethau y maent yn eu mwynhau. Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn rhan annatod o brosesau'r gwasanaeth, gan gynnwys anghenion ysbrydol, emosiynol a chorfforol y bobl. Mae'r rheolwyr a'r staff gofal yn angerddol am y gwaith y maent yn ei wneud ac maent yn ymroi'n llwyr i wella bywydau'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r cartref yn olau, yn groesawgar, yn eithriadol o lân ac wedi'i gyflwyno'n dda iawn. Mae systemau ar waith i sicrhau lefelau rhagorol o waith cynnal a chadw a gwaith cadw tŷ. Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff gofal cyson sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac y maent yn eu hadnabod yn dda. Mae'r staff gofal yn gyfeillgar iawn ac yn ymdrin â'r bobl mewn ffordd garedig a thosturiol. Mae'r bobl yn rhan gwbl greiddiol o'r gwasanaeth hwn.

## Llesiant

Dywedodd y bobl wrthym fod y staff gofal yn rhagorol a'u bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Caiff y bobl eu trin â thosturi a pharch. Mae'r staff gofal yn gyson ac yn adnabod y bobl yn dda. Gwelsom gydberthnasau ystyrlon rhwng y bobl a'r staff gofal ac roedd y cydberthnasau hynny yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rheolwyr yn ceisio barn ac adborth gan y bobl yn gyson drwy adolygiadau, arolygon, cyfarfodydd ac adborth uniongyrchol gan y bobl. Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i gymdeithasu â'r bobl sy'n bwysig iddynt.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel. Mae systemau da ar waith i'r bobl, y staff a'r rheolwyr allu cyfathrebu'n hwylus. Mae'r bobl a'r staff gofal yn teimlo'n gyfforddus yn codi pryderon neu faterion â'r rheolwyr. Mae systemau da ar waith i sicrhau bod y bobl sy'n dod i'r cartref i weithio neu i ymweld yn addas. Mae gan y rheolwyr drefniadau rhagorol ar gyfer goruchwylio unrhyw faterion ac maent yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol yn ddi-oed er mwyn lleihau risgiau.

Caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog i gynnal ffordd iach o fyw. Caiff bwyd a diodydd y bobl eu monitro a chânt eu hannog i fwyta ac yfed pan fo angen. Caiff diodydd a bwyd arbenigol eu rhoi fel y bo angen. Gwelsom y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau ac sy'n cyfrannu at eu llesiant. Gwelsom fod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen. Mae'r cydberthnasau gwaith yn dda iawn â'r Ymarferydd Cyffredinol a gweithwyr proffesiynol eraill, yn enwedig o ran galluogi'r bobl i allu dewis aros yn y gwasanaeth pan fydd eu hanghenion gofal yn cynyddu.

Mae'r amgylchedd yn foddhaus ac yn adlewyrchu cymunedau bach. Mae'r gwasanaeth wedi'i addurno ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel ac mae'n adlewyrchu dewisiadau'r bobl lle bynnag y bo'n bosibl. Mae amrywiaeth o gyfarpar ar gael i helpu'r pobl i symud o amgylch. Mae cyfarpar arbenigol ar gael i wella profiadau o ddydd i ddydd. Mae amrywiaeth o gyfleusterau arloesol a gweithgareddau creadigol ar gael i'r bobl yn eu cartref.

Gwelsom fod y bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y gwasanaeth yn ymdrechu i sicrhau y gall y bobl fyw eu bywydau fel y byddent yn ei wneud gartref. Ymgynghorir â'r bobl a chânt eu cynnwys yn eu gofal ac mewn unrhyw adolygiadau a gaiff eu cynnal. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu hannog i ymgysylltu ac i fod yn rhan o'u cymuned. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ceisio cynnwys y gymuned leol yn y cartref. Gwelsom ymroddiad i gynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Caiff amgylchiadau unigol y bobl eu hystyried fel rhan o'u

gofal. Caiff diwylliannau, crefyddau ac ieithoedd y bobl eu hyrwyddo a'u dathlu. Caiff y bobl eu hannog i rannu eu diddordebau a'u hobïau ag eraill yn y cartref. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

## Gofal a Chymorth

Caiff cynlluniau gofal manwl eu hadolygu'n rheolaidd gan gynnwys yr unigolyn a/neu berthynas. Gwelsom fod cynlluniau gofal yn cael eu dylunio drwy ymgynghori â'r unigolyn ac maent yn cynnwys gwybodaeth allweddol sy'n sicrhau y gall y bobl barhau i fyw eu bywydau fel y byddent yn ei wneud gartref. Nodir manylion fel un siwgr yn eu te, hoffi cael eu gwallt wedi'i drin neu wisgo lipstic yn y bore. Mae'r cynlluniau hefyd yn cynnwys manylion ymarferol sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn, er enghraifft pa gyfarpar penodol sydd ei angen ac anghenion symudedd.

Mae'r bobl yn cael y feddyginiaeth gywir ar yr adeg gywir. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae'r meddyginiaethau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y gweithiwr proffesiynol priodol. Caiff archwiliadau o feddyginiaethau eu cwblhau ac ymdrinnir ag unrhyw gamau gweithredu. Mae cymwyseddau meddyginiaeth y staff gofal yn cael eu profi'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sydd ganddynt yn gyfredol. Gwelsom fod amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol fel gweithwyr Therapi Lleferydd ac Iaith, podiatryddion ac optegwyr ar gael i'r bobl eu gweld.

Caiff barn y bobl am y gwasanaeth ei gwerthfawrogi. Mae'r bobl yn cael sawl cyfle i roi adborth mewn perthynas â'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys arolygon, cyfarfodydd a thrafodaethau â'r tîm rheoli. Mae'r bobl yn adnabod y staff gofal sy'n eu cefnogi yn dda ac yn gwybod pwy yw eu gweithiwr allweddol penodol. Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i arfer eu hawl i bleidleisio.

Mae tîm ffordd o fyw penodedig ar waith sy'n cynllunio ac yn hwyluso gweithgareddau. Mae'r gwasanaeth yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn ystyried dewisiadau, crefydd, ethnigrwydd a diwylliant y bobl er mwyn teilwra gweithgareddau ar eu cyfer. Gwelsom fod y tîm ffordd o fyw wedi cysylltu ag aelodau o'r gymuned er mwyn ceisio dod â'r gymuned i mewn i'r cartref. Mae wedi trefnu ymweliadau rheolaidd gan ysgolion lleol ac wedi cysylltu â grwpiau crefyddol a diwylliannau penodol yn y gymdeithas. Mae hyn wedi galluogi'r bobl i rannu a dathlu eu diwylliant ag eraill. Rhoddwyd rhaglen ‘Playlist for life’ ar waith, lle gall y bobl gasglu rhestr o ganeuon i'w chwarae sy'n eu hatgoffa o gyfnod hapus yn eu bywydau. Nododd y staff ymateb cadarnhaol iawn i'r rhaglen hon. Ymgysylltwyd â'r bobl, a gwelwyd hefyd fod y rhaglen yn lleihau teimladau o orbryder ymhlith y bobl, yn gwella eu hymddygiad ac yn lleihau'r risg y byddant yn cwympo.

Mae'r staff yn sicrhau bod y bobl sy'n wynebu risg o ynysigrwydd cymdeithasol yn cael gweithgareddau un i un yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y dull hwn wedi helpu'r bobl i ddatblygu sgiliau newydd neu i gofio hen sgiliau. Caiff

gweithgareddau a digwyddiadau eu cynnal yn rheolaidd drwy gydol yr wythnos. Dywedodd un unigolyn wrthym “*Sometimes you may be happy reading a splendid book*” a “*sometimes you're grateful that there is someone there telling you what’s available*”. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hannog i rannu eu diddordebau ag eraill, fel ioga a dawnsio. Yn ddiweddar aeth y gwasanaeth ar daith i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar yr hyn sydd ar gael a'u bod yn mwynhau eu rhyddid a'r hyblygrwydd i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn olau, yn gynnes ac yn groesawgar. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi'u cyflwyno'n dda iawn ac mae'r ystafelloedd gwely yn unigryw i'r unigolyn. Ar ddiwrnod yr arolygiad, cawsom wahoddiad gan y bobl i eistedd a chael paned o de. Mae hyn yn dangos fod gan y bobl ymdeimlad gwirioneddol o berchnogaeth. Er bod yr ystafelloedd wedi'u cyflwyno'n dda, dywedodd y rheolwr wrthym fod rhaglen barhaus ar waith i'w hailaddurno, ac mae'r bobl yn edrych ymlaen yn fawr at hynny. Gwelsom fod amrywiaeth o gyfleusterau ar gael yn y cartref megis ystafell sinema, siop, salon gwallt, tafarn ac ystafell gardd. Mae cyfarpar arbenigol ar gael hefyd i'r bobl, megis teclynnau codi a baddonau arbenigol. Mae'r cofnodion yn dangos y gall y bobl fwynhau bath synhwyraidd a gwrando ar gerddoriaeth i ymlacio. Mae'r cartref yn eithriadol o lân a gwelsom lefelau da o staff yn y tîm domestig a'r tîm golchi dillad. Mae'r staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod y safonau yn y cartref yn cael eu cyrraedd a'u bod yn rhagori arnynt.

Gwelsom fod systemau rhagorol ar waith i fonitro iechyd a diogelwch ac ansawdd yr amgylchedd. Mae system ap yn galluogi'r staff gofal a'r bobl i gofnodi unrhyw faterion amgylcheddol neu faterion cynnal a chadw sy'n codi. Mae'r materion cynnal a chadw hyn yn cael eu hanfon yn syth at y tîm cynnal a chadw er mwyn gallu eu datrys cyn gynted â phosibl. Gwelsom fod y tîm yn ymateb i faterion ac yn eu datrys yn gyflym. Caiff y cyfarpar tân ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Cynhelir ymarferion tân i sicrhau bod y systemau yn gweithio a bod y staff yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae'r cofnodlyfrau yn cael eu cadw'n dda ac maent yn gyfredol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu rhagorol ar waith yn y gwasanaeth hwn. Maent yn galluogi'r gwasanaeth i redeg yn ddidrafferth. Mae gan y rheolwr ddealltwriaeth a gwybodaeth eithriadol am y gwasanaeth ac am yr unigolion sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Mae'r rheolwyr a'r staff yn awyddus iawn i sicrhau cynhwysiant. Caiff y bobl sy'n rhannu iaith eu hannog i dreulio amser gyda'i gilydd. Mae hyn yn galluogi'r bobl i siarad yn eu hiaith eu hunain ac i allu rhannu eu diwylliant ag eraill. Gwelsom hefyd fod y Gymraeg yn cael ei hybu mewn ffordd ragweithiol yn y gwasanaeth ac mae aelodau o'r staff gofal sy'n gweithio yno yn siarad Cymraeg.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i ddiweddaru'r staff am unrhyw newidiadau ac i roi gwybodaeth. Cynhelir cyfarfodydd clinigol rheolaidd i sicrhau bod y gwasanaeth yn cymryd camau rhagweithiol i nodi patrymau a thueddiadau. Mae gan y gwasanaeth aelodau cymwys o uwch-staff a Nyrsys ar bob llawr er mwyn sicrhau y gellir ymdrin â materion yn ddi-oed. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd er mwyn asesu ansawdd a goruchwylio'r gwasanaeth. Caiff camau gweithredu blaenorol eu hystyried a gweithredir arnynt. Caiff hyfforddiant staff, damweiniau a digwyddiadau eu dadansoddi a chaiff patrymau a thueddiadau eu nodi. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn casglu adborth gan y bobl a'r staff gofal. Gwelsom fod yr holl adborth a gafwyd yn gadarnhaol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn cwblhau adolygiad trylwyr o ansawdd y gofal. Caiff adborth ei gasglu gan amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r adolygiad yn nodi'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a ffyrdd o wella a datblygu.

Mae lefelau presenoldeb staff uchel iawn, gan gynnwys staff gofal, staff lletygarwch, staff cynnal a chadw, staff gweithgareddau, rheolwyr a nyrsys. Mae gan bob un ei dîm penodedig, uwch-aelodau o staff a rheolwyr. Waeth beth yw eu rolau, mae pob aelod o'r staff yn ymgysylltu â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ac yn frwdfrydig iawn o ran yr hyn y maent yn ei wneud. Mae pawb yn deall ymrwymiadau, nodau, ethos a gweledigaeth y gwasanaeth. Mae'r staff yn ymdrin â'r bobl mewn ffordd garedig, dosturiol a pharchus.

Mae'r staff gofal yn awyddus iawn i wella bywydau'r bobl y maent yn eu cefnogi ac maent yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym ei fod yn gweddïo'n rheolaidd â rhywun. Gwelsom aelod o'r staff yn helpu un o'r bobl i beintio ac roedd sawl menyw yn cael eu hewinedd wedi'u peintio. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn ac maent yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda. Mae'r staff gofal yn destun gweithdrefn fetio gadarn er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i weithio gydag oedolion agored i niwed. Gwelsom fod gwiriadau manwl yn cael eu cwblhau, bod ceisiadau yn cael eu gwneud am eirdaon a bod gwiriadau hunaniaeth yn cael eu cynnal. Mae gan bob aelod o'r staff wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r staff gofal yn cael sesiynau sefydlu a hyfforddiant rheolaidd. Mae'r hyfforddiant yn barhaus er mwyn sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff gofal bob amser yn gyfredol. Mae'r staff gofal yn teimlo'n hyderus yn codi pryderon â'r uwch-aelodau o staff a'r rheolwr. Mae'r staff gofal hefyd yn gwybod pwy yw'r Unigolyn Cyfrifol ac yn teimlo'n hyderus yn mynd ato. Caiff sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd eu cynnal ac mae'r staff gofal yn cael eu cefnogi i ddatblygu ac i gamu ymlaen yn eu gyrfa. Mae'r staff yn hapus ac yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/08/2023